


- A WORD FROM JULIAN ATKINS CEO
- LLANGORSE LOOS
- TALYBONT STAR PARTY - NICK BUSBY USK ASTRONOMICAL SOCIETY
- DAY2STAY
- DARK SKY POD CASTS
- VIRTUAL TOURISM CONFERENCE
- HERITAGE IN THE BRECON BEACONS
- MARI LWYD
- BRECON BEACONS TOURISM
- WINGS OF WALES
- BRECON BUZZ
- LIZ DANIEL
- GEOPARK DISCOVERY POINT
- INDUSTRY BULLETINS
- WALES WAY PROJECT
- THE POETRY STONES
- THE STONE SEAT
- THE RED KITE
- CONTACTS



**RHYNGWEITHIOL
NEWYDDION
TWRISTIAETH**



Edrych tuag at ddyfodol mwy disglair



Rwy'n siŵr y bydd pawb yn cytuno gyda mi fod 2020 wedi bod yn un o'r blynyddoedd mwyaf heriol erioed, felly, dyma obeithio y bydd 2021 yn well.

Pan glywsom ni gyntaf am Covid-19, dydw i ddim yn meddwl y gallai'r un ohonom fod wedi darogan cymaint y byddai'n amharu ar ein bywydau. Alla i ond dychmygu sut mae wedi bod ar gyfer busnesau sy'n gweithio yn ein sector twristiaeth werthfawr ac ar ôl siarad gydag ychydig ohonoch, fe wn pa mor anodd oedd y flwyddyn i chi. Hoffwn ddymuno pob hwyl i chi wrth ymdopi â beth bynnag a ddaw yn 2021 ac alla i ond mynegi fy nymuniad gwirioneddol y byddwn i gyd yn dal i adfer gyda'n gilydd ac y gallwn ni edrych ymlaen at ddyfodol gwell cyn bo hir.

Wrth i ni symud ymlaen, mae pennod newydd yn agor yn hanes Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Fel rhan o Raglen Newid fewnol, rydym ni'n sefydlu Tîm Arweinyddiaeth Corfforaethol a fydd yn gosod cyfeiriad newydd gyda thimau wedi'u huno a fydd yn gweithio i set newydd o flaenoriaethau. Fel rhan o'r gwaith hwn byddwn cyn bod hir yn recriwtio ar gyfer cyfres o swyddi Penaeithiad Gwasanaeth newydd:

- **Pobl a Chymunedau**
- **Adfer Tirwedd a Natur**
- **Ariannu a Datblygu Busnes**
- **Gwasanaethau Corfforaethol**

Yn anffodus, fel rhan o'r cyfeiriad newydd hwn, daw swydd Rheolwr Twristiaeth Gynaliadwy i ben ac mae Richard Tyler wedi penderfynu peidio ag ymgeisio am unrhyw un o'r swyddi newydd. Bydd, felly, yn ein gadael fis Ionawr, dim ond ychydig yn gynharach na'r ddyddiad yr oedd wedi bwriadu ymddeol yn ddiweddarach yn 2021.

Yr un pryd, mae Carol Williams hefyd wedi penderfynu ymddeol, felly, gyda'i gilydd, mae hyn yn bendant yn ddiwedd cyfnod. Mae'n anodd credu fod amser wedi hedfan mor gyflym. Bydd Carol yn gweithio'n rhan amser am nifer o fisoedd eto er mwyn sicrhau trosglwyddo'i phrosiectau'n llyfn.

Rwy'n siŵr y byddwch yn ymuno gyda mi i ddymuno pob hwyl i Richard a Carol yn y dyfodol. Ar nodyn personol, hoffwn dalu teyrnged i'r ddau am eu blynyddoedd o wasanaeth ac am yr hyn y maen nhw wedi'i wneud yn ystod eu hamser yma - maen nhw'n gadael etifeddiaeth nodedig ar eu hôl. Mae wedi bod yn amser cyffrous gyda llawer o brosiectau arloesol, syniadau creadigol a darpariaeth o ansawdd uchel. Rwy'n siŵr fod gan bob un ohonoch atgofion gwych o'ch gwaith gyda nhw, fel sydd gen i.

Gyda'r holl heriau, mae'r Awdurdod yn ystyried sut mae'n cysylltu â thwristiaeth ac mae wedi ymrwymo i lenwi swydd Carol. Bydd yn wahanol (does neb yn gallu cymryd lle Carol!) ond rydym yn gwybod ein bod eisiau gweithio gyda chi a sicrhau fod ymwelwyr yn cael profiad rhagorol wrth gyfrannu'n llawn at yr economi leol a bod mor wyrdd â phosibl. Bydd ein gwaith twristiaeth yn dod o dan y tîm newydd Pobl a Chymunedau ac rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda chi wrth i ni symud ymlaen gyda'r syniadau hyn.

Julian Atkins
Prif Weithredwr





YN WAG, YN BRYSUR – TOILEDAU LLANGORS

Y newyddion da yn gynnwys fis Mawrth oedd bod toiledau newydd ar gomin Llangors wedi'u hagor, ar 9 Mawrth. Ond, lai na thair wythnos yn ddiweddarach, roedd yn rhaid eu cau oherwydd covid-19. Fodd bynnag, rhoddodd hynny gyfle i'r ystlumod pedol leiaf fwynhau heddwch eu gwesty ystlumod newydd ger y toiledau.

Roedd y toiledau ar agor yn yr haf ac yn cael adolygiadau gwych oddi wrth y rhai oedd wedi'u defnyddio. Does dim tâl am eu defnyddio, ond gofynnir am roddion er mwyn i'r ymddiriedolwyr allu eu rheoli a'u cynnal.

PARTI SÊR TALYBONT AR WYSG - NICK BUSBY USK ASTRONOMICAL SOCIETY

Roedd yn rhaid gohirio'r dyddiad gwreiddiol ar gyfer y parti sêr ym mis Ebrill ond daeth mwy na 80 o wahoddedigion i barti sêr ar ei newydd wedd fis Tachwedd. Gyda gwyrthiau technoleg, zwmiodd Nick Busby, arbenigwr o gymdeithas seryddiaeth Wysg, blannetariwm rithiol i gartrefi. Awyr y nos Tachwedd a Rhagfyr oedd testun y sgwrs, a chafodd ei dangos gan ddefnyddio meddalwedd y blannetariwm. Cyflwynwyd fideo newydd awyr dywyll Bannau Brycheiniog ac mae podlediadau o awyr Tachwedd a Rhagfyr ar y wefan pen taith; gellir ei lawr lwytho ar ddyfeisiadau symudol, cymerwch gipolwg ar

<https://www.breconbeacons.org/cy/pethau-iw-gwneud/gweithgareddau/anturiaethau-syllu-ar-y-ser>

DAY2STAY

Mae'r gwaith wedi parhau ar y prosiect day2stay gyda ffotograffau, ffilmiau, podlediadau a thafleuni newydd y gall busnesau eu lamlwytho ar gyfer eu gwefannau neu eu deunydd cyhoeddusrwydd. Bydd set llawn o'r rhain ar gael yn gynnwys ym mis Ionawr. Bydd gwybodaeth ynghylch sut i'w ddefnyddio hefyd ar gael yn y flwyddyn newydd.

Bydd y ffotograffau'n cael eu lamlwytho ar y banc Brand. Gwnewch yn siŵr eich bod wedi cofrestru ar y banc Brand er mwyn i chi allu llamlwytho'r ffotograffau am ddim.

PODLEIDIADAU AWYR DYWYLL

Mae'r podlediadau wedi'u llwytho ar ein gwefan pen taith www.breconbeacons.org/things-to-do/activities/stargazing/monthly-stargazing-podcasts gan gynnwys awyr y nos yn: Ionawr/Chwefror, Mawrth/Ebrill, Mai/Mehefin, Gorffennaf/Awst, Medi/Hydref, Tachwedd/Rhagfyr.

These are great for guests especially those from cities who may not have seen the milky way, constellations and planets. The pod casts are in Welsh and English.



Bydd Laura Thomas, Twristiaeth Bannau Brycheiniog a Carol Williams, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn trefnu cynhadledd twristiaeth rithiol ar 3 Mawrth. Bydd gwybodaeth am y rhaglen a sut i ymuno yn cael ei hanfon allan yn y Flwyddyn Newydd. Gobeithio y byddwch yn gallu ymuno â ni.



Interreg
Atlantic Area
European Regional Development Fund



**ATLANTIC
CULTUREScape**

ATLANTIC CULTUREScape

LLIFOLAU AR DREFTADAETH FYW YM MANNAU BRYCHEINIOG

Mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cymryd rhan mewn Prosiect Ardal yr Iwerydd Interreg a fydd yn amlygu treftadaeth ddiwylliannol haniaethol Gymreig y Parc. Defnyddir cyllid trwy'r Prosiect Atlantic CultureScape i ddatblygu ac amlygu'r dreftadaeth ddiwylliannol fyw sy'n gysylltiedig â thirwedd Bannau Brycheiniog.

Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn un o saith partner ar draws Ardal yr Iwerydd sy'n cydweithio ar Brosiect Atlantic CultureScape. Prif amcanion Atlantic CultureScape yw dathlu treftadaeth ddiwylliannol haniaethol trwy weithio gyda busnesau lleol i greu, hybu a gwerthu profiadau twristiaeth ddiwylliannol.

BETH YW TREFTADAETH DDIWYLLIANNOL HANIAETHOL (ICH)?

Treftadaeth Ddiwylliannol Haniaethol, sy'n cael ei alw hefyd yn ddiwylliant neu dreftadaeth byw, yw'r traddodiadau, y sgiliau a'r arferion y mae cymuned neu wlad yn eu hymarfer ac sy'n rhoi synnwyr o le. Yn wahanol i dreftadaeth ddiwylliannol ddiriaethol megis arteffactau, adeiladau a chofebion, treftadaeth ddiwylliannol haniaethol yw'r pethau y gellir eu cofnodi ond nid eu cyffwrdd na'u cadw mewn ffurf gorfforol. Er enghraifft, geiriau llafar barddoniaeth a llen gwerin, arferion a chredoau, crefftau traddodiadol sy'n cael eu hymarfer a'u trosglwyddo trwy'r cenedlaethau a gwyliau ac arferion.

Mae'r enghreifftiau o'r dreftadaeth ddiwylliannol haniaethol a nodir ym Mannau Brycheiniog yn cynnwys tecstilau Cymreig a nyddu a gwehyddu ffibrau o'r defaid sy'n pori ar ein brynicu. Mae adrodd hanesion yn un arall, gyda llawer o'r mythau a'r chwedlau sy'n gysylltiedig â'n tirlun wedi'u trosglwyddo trwy'r cenedlaethau. Mae gennym ein bwydydd Cymreig gan gynnwys Welsh rarebit, rysait o'r 18fed ganrif sy'n dal

yn boblogaidd heddiw. Ac mae yna ddefodau gwerin Cymreig fel y Fari Lwyd; darllenwch ragor am hynny yn yr erthygl gysylltiedig.

YN GALW BUSNESAU TWRISTIAETH

Cyfarfu grŵp o fusnesau lleol sy'n gysylltiedig â threftadaeth ddiwylliannol haniaethol fis Hydref i rannu gwybodaeth a syniadau ac i chwilio am ffyrdd y gallai busnesau ym Mannau Brycheiniog dderbyn cefnogaeth ac elwa ar arian Atlantic CultureScape. Mae'r syniadau a gafodd eu cyflwyno'n cynnwys adeiladu adnoddau, canllawiau hyfforddi a marchnata treftadaeth ddiwylliannol haniaethol Bannau Brycheiniog yn ehangach. Byddwn yn cyfarfod eto cyn bo hir i gynllunio ar gyfer 2021 ac mae croeso i fusnesau treftadaeth ddiwylliannol haniaethol eraill ymuno â ni.

Eisiau cymryd rhan neu wybod rhagor? Neu allwch chi fy nghyfeirio at y bobl y galla i siarad gyda nhw sydd â busnesau neu â chysylltiad â treftadaeth ddiwylliannol haniaethol yn y Parc?

Cysylltwch â Clarissa Price, Swyddog Twristiaeth Gynaliadwy:

 clarissa.price@beacons-npa.gov.uk

MAPIO TREFTADAETH DDIWYLLIANNOL HANIAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG

Rydym yn gweithio ar hyn o bryd ar fapio holl fusnesau treftadaeth ddiwylliannol haniaethol yn y Parc er mwyn hysbysu'r Prosiect a chreu llwybr diwylliannol ar gyfer ymwelwyr. Oes gennych chi fusnes treftadaeth ddiwylliannol haniaethol y dylem ni wybod amdano? Cysylltwch â Clarissa.



ATLANTIC
CULTUREScape



Interreg
Atlantic Area
European Regional Development Fund



Dilynwch Atlantic CultureScape:
www.atlanticculturescape.eu

Ar Facebook & Trydar - @ACulturescape

Mae'r prosiect yn cael ei ariannu ar y cyd gan Raglen Ardal yr Iwerydd Interreg trwy Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop

Credydau delweddau L-R - The Greenman © Hawlfraint y Goron © Crown copyright (2019) Cymru - WALES / The Cork Gaeltacht - IWERDDON / Flamenco Ballet - Consejería de Cultura y Patrimonio Histórico de la Junta de Andalucía, fotograffydd: Luis Castilla. SBAEN

Y FARI LWYD

Dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd mae golygfa ryfedd i'w gweld yn ne a chanolbarth Cymru. Mae penglog ceffyl, wedi'i osod ar bolyn, wedi'i addurno gyda chlychau a rhubanau a chyda 'marchog' wedi'i guddio o dan liain, yn mynd gyda gyda chriw o loddestwyr o dafarn i dafarn gan ganu penillion (pwnco) a cheisio cael gwahoddiad i dai pobl. Y Fari Lwyd yw hon sy'n erlyn pob lwc ddrwg ac yn hebrwng lwc dda ar gyfer y flwyddyn newydd.

Aeth gwreiddiau'r Fari Lwyd ar goll yn nhreigl amser, ond, mor bell yn ôl ag oes y Celtiaid roedd ceffylau'n bwysig oherwydd y statws roedden nhw'n ei roi i bobl ac oherwydd eu defnydd mewn amaethyddiaeth a chludiant. Roedd y dduwies-geffyl Geltaidd, Epona, yn rhoi ffrwythlondeb a digonedd.

Yn hanesion canol oesol Cymru, y Mabinogi, roedd yr anifeiliaid a'r bobl a oedd yn gallu teithio'n hawdd o'r Byd Arall i'n byd ni naill ai'n wyn neu'n llwyd. Ai anifail o'r Byd Arall wedi dod i ymweld â ni ar yr adeg dywyll hon o'r flwyddyn oedd hi?

Erbyn y 1970au roedd traddodiad y Fari Lwyd wedi edwino yn ne Cymru a dim ond ychydig o leodd oedd yn dal ati. Ers yn gynnar yn y 2000au mae'r traddodiad wedi ail afael ar draws de a chanolbarth Cymru. Yn nathliad Gwasael a Mari Lwyd Cas-gwent, a gafodd ei gynnal i nodi'r hen Flwyddyn Newydd ar 14 Ionawr 2019, roedd dros 30 Mari Lwyd yn bresennol, gan dorri record byd.

Efallai na welwn ni y Fari mewn tafarndai eleni oherwydd y pandemig, ond fe fydd hi allan yn y strydoedd tywyll dros yr ŷl gan ddod ag ychydig o ryfeddod yr arallfydol i'n cymunedau.

Delweddau

Mari Arianrhod (Blaenau Cwm Tawe)

Mari Trecopr a'r Cob Gwyrdd (Abertawe a Bro Gwŷ)

Ystrad Mari Troupe gyda Mari Aberhonddu (Glyntawe ac Aberhonddu)



TWRISTIAETH BANNAU BRYCHEINIOG

Ystrydeb hollol yw dweud bod eleni wedi bod yn flwyddyn anodd a llawn stres i'r rhan fwyaf o fusnesau'r Canolbarth, ond mae Twristiaeth Bannau Brycheiniog wedi bod yn weithgar yn cefnogi'n haelodau trwy'r argyfwng. Rydym wedi bod ar banel strategol yn cynnig cyngor ynghylch y diwydiant i Lywodraeth Cymru, a sicrhau bod ein haelodau'n cael yr wybodaeth ddiweddaraf ar becynnau ariannu gynted ag y maen nhw'n cael eu cyhoeddi, yn ogystal â chasglu a dehongli gwybodaeth i helpu busnesau twristiaeth i addasu a newid i'r safonau newydd. Gan nad ydyn ni wedi gallu cyfarfod, rydym wedi cynnal nifer o gyfarfodydd rhithiol eleni, gan gynnwys dwy sesiwn gyda Fay Jones, Aelod Seneddol Brycheiniog a Maesyfed ac mae un hefyd ar y gweill gyda Kirsty Williams, Aelod y Cynulliad yn niweddarach y mis hwn lle bydd ein haelodau'n gallu mynegi unrhyw bryderon.

Erbyn hyn rydyn ni'n edrych ymlaen at Wanwyn 2021 ac yn paratoi pentwr enfawr o'r datflen boblogaidd Brecon Beacons Map and Guide a hefyd fersiwn hawdd ei darllen i'w lawr lwytho. Bydd ymwelwyr yn gallu llawr lwytho'r arweinyfr www.BreconBeacons.org yn ogystal â www.CroesoCymru.com

Mae hyn yn un o fanteision unigryw bod yn aelod o Dwristiaeth Bannau Brycheiniog, heb unrhyw ffi hysbysebu ychwanegol, ac, erbyn hyn, dyma'r unig arweinyfr swyddogol i'r ardal gan nad yw'r National Park Visitor Guide yn cael ei gynhyrchu bellach.

Yn ogystal â bod ar y rhestr aelodau ar y wefan pen taith www.breconbeacons.org a phostiau ar y cyfryngau cymdeithasol i dros 21,000 o ddilynwyr, byddwn yn dechrau ymgyrch farchnata gymdeithasol day2stay cyn bo hir i annog archebu gwyliau gartref 2021 o flaen llaw, Felly, os nad ydych eto'n aelod, ac os hoffech ymuno yn ar y cyfnod unigryw hwn, e-bostiwch info@breconbeaconstourism.co.uk neu ymweld â www.breconbeaconstourism.org i gael rhagor o fanylion.



Dyma ychydig o newyddion oddi wrth rai o'n haelodau:

ADENYDD CYMRU

www.wingsofwales.com

Ers i covid daro, mae problemau enfawr wedi codi i bob un ohonom, o fusnes i lesiant, ond mae wedi arwain hefyd at rai pethau positif i ni. Rwyf wedi gallu defnyddio'r tîm i addysgu pobl am adar ar y cyfryngau cymdeithasol, yn enwedig fulturiad. Yn ystod y cyfnod hwn, cysylltodd gwahanol lwyfannau'r cyfryngau, gan gynnwys ITV oedd yn holi beth ydyn ni'n ei wneud, ac i gynllunio pennod ar gyfer Coast and Country ac Around Britain. Roedden ni'n ddigon lwcus i gael toriad yn y cyfnodau clo i allu ffilmio a chael pennod allan ar gyfer y gyfres newydd.

Roedd y cyfnod hwn hefyd yn gyfle i ni ganolbwyntio ar brosiect mawr iawn rydyn ni'n ei arwain. Mae WCCOE yn brofiad ymwelwyr o gadwraeth a allai osod meincnodau newydd ar gyfer profiadau o anifeiliaid y mae ymwelwyr yn eu cael. Rydym yn gobeithio ystyried ail-wylltio, addysg, diwylliant ac yn bwysig iawn, creu swyddi. Ar hyn o bryd, mae grŵp milfeddygol swrhyngwladol, sy'n enwog dros y byd am eu sgiliau, yn cynnal astudiaeth. Bydd rhan o'r astudiaeth yn dangos dichonoldeb y prosiect.

Mae hwn yn gyfnod cyffrous iawn a allai osod Cymru'n wirioneddol ar y map ynghylch atyniadau ymwelwyr a chadwraeth. Os yw unrhyw fusnes â diddordeb mewn ymuno â'n taith, croeso i chi gysylltu â mi, Lewis Phillips, a byddwn yn edrych ymlaen at drafod amlinelliaid y prosiect gyda chi.

O ADFYD DAW CYDWEITHREDU

Daeth busnesau a rhai aelodau o'r gymuned yn Aberhonddu at ei gilydd dros yr haf 2020 i geisio helpu'r dref i oresgyn a ffynnu y tu hwnt i effeithiau Covid 19.

Gan gyfarfod y tro cyntaf yn yr awyr agored yng nglôs yr eglwys gadeiriol yn ystod yr haf, daeth pobl gyda'r nod cyffredin o helpu eu tref at ei gilydd i drafod beth sydd ei angen ar unwaith a beth y maen nhw'n gobeithio ei wneud yn y tymor hirach i gadw nifer yr ymwelwyr, eu cysylltiad a'u gwariant. Yn bwysicaf oll, roedd busnesau angen llais cyffredin i siarad gyda'r cyngor tref a Chyngor Sir Powys a chael peirianwaith i gyfathrebu gyda'i gilydd.

Ymddangosodd yr enw Brecon Buzz gan fod pobl eisieu bwrwm yn

eu tref - yn byrlymu o syniadau ac yn siarad gyda'i gilydd, yn canfod atebion a bod pawb yn ddiwyd ac yn cydweithredu.

Wedi'u hysbrydoli gan y symudiad Totally Locally, sydd dros y DU ac wedi bod yn llwyddiant mawr yng Nghrughywel, dyma'r fodel mae'r grŵp yn bwriadu ei fabwysiadu yn gynnar yn 2021.

Yn ystod wythnosau olaf y flwyddyn, bydd busnesau'n cynnig raffl am ddim o Hosan Nadolig Enfawr yn llawn o anrhegion wedi'u rhoi gan siopau annibynnol, caffis a bariâu'r dref. Bydd pawb yn cael tocyn y raffl ar ôl gwario o leiaf £3 mewn unrhyw un o'r busnesau sy'n cymryd rhan. Mae 15 o fusnesau wedi cynnig cyfrannu at yr hosan, yn amrywio o daleb £10 i'w wario yn Llanfaes Dairy i lyfr o The Hours,

anrheg Nadolig o Tŷ Cariad, a darn o grochenwaith lleol o Found Gallery.

Mae Brecon Buzz yn gweithio'n agos gyda'r cyngor tref ynghylch sut i adfer ar ôl Covid ac yn cydlyn ynghylch gwefan Croeso Aberhonddu. Bydd gwahanol bobl yn brysur yn chwilio am y ffordd orau o ddarparu Cynllun Tref Ugain Ugain Aberhonddu, y mae amryw o

gyrff y sector cyhoeddus yn gyfrifol amdano. Mae eraill yn gweithio gyda Rhwydwaith Ddiwylliannol a Threftadaeth Aberhonddu ac yn gyfrifol am

 www.breconstory.wales ac yn cefnogi ceisiadau 2021 i Raglen Ariannu'r Celfyddydau y Loteri Genedlaethol 'Connect & Flourish', Cyngor Celfyddydau Cymru.



LIZ DANIEL YMDDEOLIAD CHWEDL LEOL

"Mae Liz pob amser yn dweud mai merch fusnes ar hap yw hi. Dechreuodd y busnes yng nghanol y Saithdegau pan oedd ei dwy ferch yn ifanc iawn drwy osod anecs ei bwthyn yn Llanfrynach a helpu'r ffermwr lleol Donald Jones i adnewyddu eiddo a'i farchnata gydag hysbyseb yn The Times.

Dros y 40 mlynedd nesaf mae ei phortffolio wedi tyfu i 375 eiddo gyda'r Brand, Brecon Beacons Holiday Cottages ac mae'n uchel iawn ei pharch ymysg y perchnogion a'r cwsmeriaid fel eu gilydd. Nid elw sydd wedi gyrru Liz ond sicrhau mwynhad a chyfleoedd i fusnesau'r ardal. Mae wastad yn dweud mai dewis o ffordd o fyw yn hytrach na swydd wnaeth hi (mae yna gymaint o hanesion i'w hadrodd o'r gwahanol droeon dros y blynnyddoedd, llawer o chwerthin ac ychydig o ddagrau ond byddaf yn gadael hynny ar gyfer y llyfr mae'n addo ei ysgrifennu!)

Gobeithio y bydd Liz, yn ei hymddeoliad, yn dal i gadw cysylltiad â'r gwahanol gyrff Twristiaeth gan rannu ei gwybodaeth werthfawr y mae hi wedi'i gasglu yn y busnes.



PWYNT NEWYDD I DDARGANFOD GEOPARC YM MHARC GWLEDIG CRAIG Y NOS

Mae Parc Gwledig Craig y Nos yn lle da i chi ddechrau chwilio Geoparc Fforest Fawr ac os nad ydych yn siŵr beth yw Geoparc, neu pam mae hanner gorllewinol y Parc Cenedlaethol wedi'i ddynodi'n un, yna gnewch yn siŵr eich bod yn ymweld â'r pwynt darganfod newydd i ganfod rhagor.

Y tri maen hir trawiadol sydd wedi'u dylunio gan yr artist lleol Rubin Eynon i godi ymwybyddiaeth ac i ddathlu dynodiad UNESCO. Mae'r dehongliad yn cyflwyno'r Geoparc a'i ddaear ac yn eich helpu i gynllunio sut i ddarganfod y storïau mawr sydd wedi ffurfio'r ardal: y rhew, y diwydiant a'r bobl.

Newyddion a rhybuddion



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gnewch yn siŵr eich bod yn cael y newyddion diweddaraf yn syth oddi wrth Croeso Cymru trwy danysgrio i dderbyn bwletinau Diwydiant Twristiaeth Croeso Cymru (dolen -

www.public.govdelivery.com/accounts/UKWALES_CY/subscriber/new

α dilyn [@VisitWalesBiz](https://twitter.com/VisitWalesBiz) α

[@CroesoCymruBus](https://twitter.com/CroesoCymruBus) ar drydar.

Mae Croeso Cymru wedi cynhyrchu dros 80 o fwletinau newyddion gyda gwybodaeth Covid-19 i'r diwydiant twristiaeth ac sy'n cynnwys canllawiau a rheoliadau Llywodraeth Cymru. Os ydychchi wedi colli unrhyw un, neu'r cyfan, o'r tafenni newyddion α bwletinau, gallwch eu gweld ar Barth Twristiaeth Busnes Cymru dolen

www.businesswales.gov.wales/tourism/cy/coronafirws-covid-19-bwletin

CERRIG A BARCUD - FFRWYTH PROSIECT Ffordd Cymru

Yn 2018, roedd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wrth ei fodd yn derbyn arian oddi wrth Croeso Cymru i gynnal cyfres o ymyriadau cyffrous ac uchelgeisiol ar hyd yr A470 er mwyn gwell profiad ymwelwyr ar hyd y coridor pwysig a strategol hwn. Mae'r A470 yn torri ar draws y Bannau Brycheiniog rhwng Aberhonddu a Chefn Coed y Cymer ac yn mynd trwy rai o'r golygfeydd mwyaf dramatig a chofiadwy yn y Parc Cenedlaethol. I rai pobl, dim ond siwrnai yw hyn, ond mae'r rhai sy'n aros a chwilio'n ennill ar eu canfed.



CERRIG BARDDONIAETH

Mae pedair carreg barddoniaeth wedi'u gosod mewn gwahanol fannau ar y llwybr. Mae'r cerddi, wedi'u cyfansoddi gan Owen Sheers ac Ifor ap Glyn, yn dathlu'r lle ble mae pob carreg wedi'i gosod ac wedi'u cerfio ar ddarnau bras o Dywodfaen Las Pennant. Maen nhw'n i'w gweld yng nghilan Craig y Fro – sy'n cael ei galw'n 'gornel y beicwyr', ym mhen hen ffordd y goets fawr ger Canolfan y Bannau, ac ar gilannau Cronfeydd Dŵ Cantref a Llwyn-onn. Bydd llawer ohonoch yn gyfarwydd â'r awdur Owen Sheers o Dalgarth, sy'n nofelydd, bardd a dramodydd. Cafodd y cerddi Cymraeg eu cyfansoddi gan Ifor ap Glyn, Bardd Cenedlaethol Cymru. Mae twll edrych wedi'i dorri i'r ddau 'faen hir' er mwyn i blant o bob oedran gael edrych ar yr olygfâ. Mae'r garreg, Tywodfaen Glas Pennant, o ddilyniant trwchus o gerrig sydd ar ben Haenau Glo Cymoedd y De, gyda 'Cymoedd' wedi'u cerfio amyn nhw.




Y SEDD GARREG

Mae'r sedd garreg hardd hon hefyd wedi'i gosod yng nghilan Craig y Fro (cornel y beicwyr) gyda'i golygfa i lawr Glyn Tarell. Yr arlunydd David Mackie o Gaerdydd â'i dyluniodd i adlewyrchu'r nifer o waliau cerrig sych sy'n cris-croesi'r tirlun lleol. Mae sribyn o gerrig wedi'u trefnu mewn patrwm pen saeth yn ymdroelli ar hyd y cefn i gynrychioli'r rhewlif a gerfiodd y cwm 20,000 o flynyddoedd yn ôl ac efydd syfrdanol o loynod byw y brithbrin brown a'r tormäen porffor. Mae'r ddau rywogaeth yn eithriadol o brin yn y DU ond i'w gweld yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Craig Cerrig Gleisiad gerllaw. Adeiladwyd y sedd gan y meistr-grefftwyr waliau cerrig, Alan Jones a'i fab Ifan.

Y BARCUD

Erbyn hyn mae aderyn newydd yn byw yn y Ganolfan Ymwelwyr uwch ben Libanus - cerflun 3m o led o Farcud yn edrych i lawr ar yr ymwelwyr o ben coes 4m o uchder. Rubin Eynon o Lyn-nedd yw'r arlunydd ac mae'n dangos y Barcud yn hofran yn ysgafn yn y gwynt. Mae'n dangos mor fregus yw llawer o fywyd gwyllt y Parc Cenedlaethol ond hefyd yn adrodd stori o lwyddiant. Roedd y Barcud bron â diflannu ar un adeg ond roedd poblogaeth fechan yn dal yn y canolbarth. Mae'r ffaith fod yna gymaint ledled y Parc Cenedlaethol erbyn hyn yn dangos beth ellir ei gyflawni pan fydd pawb yn cyd-dynnu.

Pam na ewch chi i chwilio amdanyn nhw y tro nesaf y byddwch yn teithio ar y ffordd hon? Does dim byd gwell na darllen y cerddi yn eu lleoliad, eistedd ar y sedd i astudio'r olygfa neu gael eich swyno gan Farcud yn siglo a throelli yn y gwynt.



CONTACTS

Carol Williams

Swyddog Ardal Twf Twristiaeth

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog,
Ffordd Cambrian, Aberhonddu, Powys, LD3 7HP.

07854 997559

carol.williams@beacons-npa.gov.uk

Alan Bowring

Swyddog Geoparc y Fforest Fawr

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog,
Ffordd Cambrian, Aberhonddu, Powys, LD3 7HP.

07854 997557

alan.bowring@beacons-npa.gov.uk

Clarissa Price

Swyddog Marchnata Georparc

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog,
Ffordd Cambrian, Aberhonddu, Powys, LD3 7HP.

07854 997539

Clarissa.price@beacons-npa.gov.uk

James Lawrence

Swyddog Rheolaeth Ymwelwyr

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog,
Ffordd Cambrian, Aberhonddu, Powys, LD3 7HP.

07854 997558

james.lawrence@beacons-npa.gov.uk

Laura Thomas

Cyfarwyddwr Gweithredol, Twristiaeth Bannau Brycheiniog

07983 635640

laura@breconbeaconstourism.co.uk